



11.0 Ymgysylltu a Dylanwadu

Pwy sy'n fy Nghynrychioli?

Trosolwg

1. Faint o gynrychiolwyr sydd gennyf?
2. Cynghorwyr Tref a Chymuned
3. Cynghorwyr Awdurdod Lleol
4. Aelodau o'r Senedd
5. Aelodau Seneddol (ASau)
6. Gwybodaeth Bellach

Mae'r daflen wybodaeth hon yn amlinellu gwahanol lefelau o sefydliadau a etholwyd yn ddemocrataidd yng Nghymru a fydd yn helpu pobl i ateb y cwestiwn 'pwy sy'n fy nghynrychioli?' Bydd hefyd yn edrych ar y prif faterion y mae pob corff yn ymdrin â nhw, i'w gwneud hi'n haws i bobl ddeall at bwy ddylent fynd atynt i gael help gyda materion penodol.

Faint o gynrychiolwyr sydd gennyf?

Ar unrhyw adeg benodol, fe fydd gan bob dinesydd yng Nghymru o leiaf 7 cynrychiolydd a etholwyd yn ddemocrataidd yn gweithio mewn sefydliadau gwahanol, o'r cynghorau tref a chymuned (o leiaf un cynghorydd, os oes cyngor tref neu **gyngor cymuned** yn eich ardal), i **awdurdodau lleol** (o leiaf un cynghorydd), **Senedd Cymru**, (pum aelod o'r Senedd) a **Llywodraeth y DU** (un Aelod Seneddol - AS).



Llun: Cynrychiolydd benywaidd wrth bodiwm]



Gwybodaeth

Un o'r ffyrdd cyflymaf o ddarganfod pwy sy'n eich cynrychioli yn eich ardal yw defnyddio Write to Them. Drwy ddefnyddio'ch cod post, bydd yn dweud wrthy'ch pwy yw eich cynrychiolwyr etholedig ar gyfer pob sefydliad, ar wahân i gynghorau tref a chymuned.

[Gwefan Write to Them](#)

Cynghorwyr Tref a Chymuned

Mae 735 o gynghorau tref a chymuned yng Nghymru gyda thua 8,000 o gynghorwyr etholedig, a chredir mai'r rhain yw llawr gwlad y llywodraeth yng Nghymru. Mae'n bosibl bod gennych nifer o gynghorwyr tref neu gymuned yn cynrychioli eich ardal. Neu, efallai nad oes yr un cyngor tref neu gymuned yn eich ardal. Maen nhw'n ymdrin â materion lleol iawn, a byddan nhw'n aml yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill er mwyn datblygu prosiectau lleol. Yn aml, byddan nhw'n darparu gwasanaethau megis:

- Tasgluoedd cymunedol
- Canolfannau cymunedol, neuaddau pentref a chanolfannau hamdden
- Cofebau rhyfel
- Arwyddion a hysbysfyrddau gwybodaeth gyhoeddus
- Seddau cyhoeddus ac arosfannau bws

Y ffordd orau o ddod o hyd i fanylion cyswllt eich cynghorwyr tref neu gymuned yw drwy eich awdurdod lleol, a ddylai fod â manylion yr holl gynghorau tref a chymuned yn yr ardal.



Gwybodaeth

Gallwch hefyd ddod o hyd i ragor o wybodaeth am Gynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru drwy "[Un Llais Cymru](#)", y mudiad sy'n eu cynrychioli ac yn eu cefnogi:

[Un Llais Cymru](#)

Cynghorwyr yr Awdurdod Lleol

Mae yna 22 awdurdod lleol yng Nghymru, a phob un o'r rhain yn Awdurdod Unedol. Golyga hyn fod un cyngor yn darparu holl wasanaethau'r awdurdod yn yr ardal, yn hytrach na chyngor rhanbarthol neu fwrdeistref a chyngor sir.

Mae mwy nag 1,200 o gynghorwyr a etholwyd yn ddemocrataidd yn gwasanaethu ar y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru, a bydd pob cynghorydd yn cynrychioli ardal benodol a elwir yn ward (**neu adran etholiadol**). Efallai bod gennych fwy nag un cynghorydd yn cynrychioli eich ward.

Gall rhai wardiau â phoblogaeth fwy o faint gael eu dynodi fel wardiau aml-aelod. Dyma'r materion yr ymdrinnir â nhw ar lefel awdurdod lleol:

- Treth y cyngor
- Trechu anfantais ac ailadeiladu cymunedau
- Problemau â thrafnidiaeth leol
- Diogelwch yn y gymuned a lleihau trosedd
- Gwasanaethau gofal cymdeithasol
- Addysg a dysgu gydol oes
- Tai
- Y celfyddydau, chwaraeon a diwylliant
- Yr amgylchedd
- Ceisiadau cynllunio
- Strategaethau twristiaeth leol



Gwybodaeth

Bydd eich awdurdod lleol yn gallu dweud wrthy ch chi am eich cynghorydd/cynghorwyr ward neu ewch i:

[Write to Them](#)

Aelodau o'r Senedd

Mae'r Senedd yn cynnwys 60 aelod etholedig o'r Senedd, a bydd gan bob dinesydd yng Nghymru 5 aelod o'r Senedd yn ei gynrychioli. Sut mae hyn yn gweithio? Mae 40 o ardaloedd etholaethol yng Nghymru e.e. **Wrecsam, Gorllewin Caerdydd, Blaenau Gwent, ac mae gan bob etholaeth ei Haelod Senedd etholedig ei hun.**

Ond, mae yna hefyd bum rhanbarth etholaethol mwy o faint yng Nghymru (**Gogledd Cymru, Canolbarth a Gorllewin Cymru, De-orllewin Cymru, Canolbarth De Cymru a De-ddwyrain Cymru**), ac mae gan bob un o'r rhanbarthau hyn bedwar Aelod arall o'r Senedd sy'n cynrychioli'r bobl yn y rhanbarth hwnnw.

- Addysg
- Iechyd
- Llywodraeth leol
- Trafnidiaeth
- Cynllunio
- Datblygu economaidd
- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Diwylliant
- Yr iaith Gymraeg
- Yr amgylchedd
- Amaethyddiaeth a materion gwledig

Mae'r meysydd sydd wedi'u neilltuo i Senedd y DU yn cynnwys materion cartref fel gamblo, caethwasiaeth, plismona a'r drefn gyhoeddus, masnach a diwydiant fel gwasanaethau post, diogelu'r defnyddiwr, a rheolau sy'n ymwneud â busnesau, nawdd cymdeithasol, materion tramor, amddiffyn a chyfiawnder. Mae elusennau a chodi arian wedi'u neilltuo i Senedd y DU.



Gwybodaeth

Gallwch chi ganfod pwy yw'r Aelodau o'r Senedd ar gyfer eich ardal drwy fynd i wefan y Senedd:

[Senedd Cymru](#)

Aelodau Seneddol (ASau)

Er bod gan Gymru ei Senedd ei hun bellach ac yn gallu llunio rhai o'i chyfreithiau ei hun, mae ei phwerau yn gyfyngedig ac mae'n bwysig nodi bod Cymru'n parhau i fod yn rhan o'r DU.

Golyga hyn fod gan Gymru 40 o **Aelodau Seneddol (ASau)** etholedig o hyd yn gwasanaethu yn **Llywodraeth y DU yn San Steffan**. Etholir yr ASau yn yr un 40 o ardaloedd etholaethol â'r Aelodau etholaethol o'r Senedd, felly bydd un AS yn eich cynrychioli chi yn eich ardal.

Gwnaeth **Deddf Cymru 2017** ddiwygio **Deddf Llywodraeth Cymru 2006**, a newid datganoliad Cymru o'r hen fodel rhoi materion i fodel materion a gedwir yn ôl, fel yr un a ddefnyddir yn yr Alban.

O dan y model rhoi materion, byddai San Steffan yn darparu rhestr o feysydd y gallai **Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Senedd bellach)** a **Llywodraeth Cymru** ddeddfwriaethu o'u mewn, ond o dan y model materion a gedwir yn ôl, mae **Llywodraeth y DU** yn dewis rhestr o bwerau y mae'n ei chadw i'w hun, gyda Chymru yn gyfrifol am y gweddill.

Mae'r rhestr o gyfrifoldebau y mae Llywodraeth y DU wedi'i chadw yn cynnwys:

- Y cyfansoddiad
- Materion tramor
- Arian cyfred
- Amddiffyn
- Y cyfryngau a diwylliant
- Cyfiawnder
- Cyfraith cyflogaeth
- Pynciau mwy penodol fel Antarctica, y gofod a mwyngloddio dwfn o wely'r môr



Gwybodaeth

Gallwch ddarganfod pwy yw eich AS drwy fynd i wefan Senedd y DU:

[Senedd y DU](#)

Gwybodaeth Bellach

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

www.wcva.cymru

Write to Them

Write to Them

www.writetothem.com

Senedd Cymru

Senedd

www.senedd.wales

Senedd y DU

Senedd y DU

www.parliament.uk



Cefnogi Trydydd
Sector **Cymru**

Third Sector
Support **Wales**

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cyngorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â <https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/>

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw un sy'n gweithredu neu'n gwrthod gweithredu arno.